

# Coed Pella

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Coed Pella  
Conwy Road  
Bae Colwyn  
LL29 7AZ

Yr amseroedd agor i'r cyhoedd ydi:  
Dydd Llun i ddydd Iau: 9am – 5pm  
Dydd Gwener: 9am – 4.45pm



## Cyrraedd yma

Mae gwibffordd yr A55 ar yr arfordir yn cysylltu'n rhwydd gyda'r rhwydwaith traffordd o ogledd-orllewin Lloegr. O Ganolbarth Lloegr a de Lloegr, defnyddiwrch yr M6, M5 ac M1. Am daeth prydferth o Ganolbarth Lloegr, teithiwrch ar hyd yr A5 trwy'r Amwythig a Llangollen.

Gwybodaeth am y ffordd/i fesur y pellter: [www.theaa.com](http://www.theaa.com) a [www.rac.co.uk](http://www.rac.co.uk). Y newyddion traffig diweddaraf: [www.traffic-wales.com](http://www.traffic-wales.com)

Cod post i'w nodi yn y peiriant Sat Nav: LL29 7AW

## Ar Fws/Coets

Mae nifer o wasanaethau bws lleol gyda chysylltiadau uniongyrchol â Bangor, Llandudno, Conwy, Llysfaen, Prestatyn a'r Rhyl yn mynd heibio Coed Pella, ac mae arosfannau bws ar gyfer teithio tua'r dwyrain a thua'r gorllewin tu allan i'r adeilad. Gellir cael gwybodaeth bellach am wasanaethau gan Traveline Cymru drwy eu gwefan - <https://www.traveline.cymru/> neu drwy ffonio 0800 464 0000.

## Ar drên

Mae gwasanaethau trên uniongyrchol yn rhedeg i'n cyrchfannau arfordirol poblogaidd yng ngogledd Cymru o'r rhan fwyaf o rannau o Brydain. Er enghraifft, mae Virgin Trains yn gweithredu gwasanaeth uniongyrchol o orsaf Euston yn Llundain i Gyffordd Llandudno. Mae yna orsafoedd ym Mhensarn, Bae Colwyn, Conwy, Penmaenmawr a Llanfairfechan ar hyd yr arfordir. Yn fewndirol, mae llinell Dyffryn Conwy yn rhedeg o Landudno i Fetws-y-coed a thu hwnt.

## Maes Parcio Aml-lawr

Mae dwy fynedfa i'r Maes Parcio Aml-lawr. Dylai pob ymwelydd gyrraedd maes parcio Coed Pella trwy Fynedfa P1 oddi ar Ffordd Lansdowne, Bae Colwyn, a gyrru tuag at faes parcio'r llawr gwaelod (Mynedfa Gyhoeddus 1). **Sylwch mae yna gyfyngiad uchder yn y maes parcio o 2.1 metr ar yr uchaf. Dylech fod yn ymwybodol o uchder eich cerbyd cyn mynd i mewn i'r Maes Parcio Aml-lawr.**

Mae yna hefyd nifer o feysydd parcio talu ac arddangos ym Mae Colwyn a gall siopwyr yng Nghanolfan Siopa Bay View barcio am hyd at dair awr yn rhad ac am ddim.

## Lluniaeth:

Fel rhan o strategaeth y Cyngor ar gyfer adfywio Bae Colwyn, rydym wedi penderfynu'n bwrpasol i beidio â chynnwys cantîn neu gaffi yn yr adeilad a byddem yn eich annog chi i gefnogi busnesau lleol gyda'ch masnach. Felly ni fydd lluniaeth yn cael ei ddarparu mewn cyfarfodydd ac mae peiriannau gwerthu diodydd poeth ac oer ar gael yn y dderbynfya ynghyd â pheiriant gwerthu bwydydd iach. Ni ddylid bwyta yn yr ystafelloedd cyfarfod.

## Cyfleusterau Toiledau

Mae nifer o doiledau Merched, Dynion ac Anabl wedi eu lleoli ar draws drwy'r adeilad. Mae toiled / ystafell newid hygrych wedi'i leoli ar y llawr gwaelod sy'n cynnwys teclyn codi.

## Cymorth Cyntaf:

Bydd darpariaeth Cymorth Cyntaf ar gael drwy'r Cymorthwyr Gwybodaeth yn ardal y Dderbynfya. Lleolir yr Ystafell Cymorth Cyntaf ar y llawr gwaelod wrth ymyl ardal yr Atriwm. Mae'r blwch Cymorth Cyntaf ar gael yn yr ystafell hon, ynghyd â gwely a seddi meddygol.

**Nodwch: Profir y larwm tân am 9am bob dydd Mawrth a bydd yn canu am gyfnod byr ac yna'n stopio. Os caiff y larwm tân ei seinio, dylai ymwelwyr wagio'r adeilad yn ddiogel ac ymgynnull yn Queens Garden o flaen yr adeilad.**

# BAE COLWYN

## ATYNIADAU A LLEFYDD O DDIDORDEB

- 1 Llyn Hwyllo ..... G11
- 2 Canolfan Tennis ..... F11
- 3 Parc Eirias - Lawntiau Bowlio ..... G10
- 4 Canolfan Hamdden Colwyn ..... H11
- 5 Llyfrgell ..... E7
- 6 Marchnad Stryd Bae Colwyn (Mawrth a Sadwrn) Ffordd yr Orsaf a Sea View Road ..... E7/E8
- 7 Pwll Cychod ..... G12
- 8 Coedwig Pwlycrochan (Taith Natur) ..... G4
- 9 Porth Eirias - (Canolfan Chwaraeon Dŵr, Bistiro a Chaffi) ..... E10
- 10 Gerddi Queens (Gwobr y Faner Werdd) ..... E6
- 11 Canolfan Siopa Bay View ..... E8
- 12 Eirias (Canolfan Ddwyddiadau a Stadiwm Zip World) ..... H11
- 13 Theatr Colwyn/Sinema/Oriel Colwyn ..... F8
- 14 Sw Fynydd Cymru ..... F1
- 15 Cyfleusterau chwarae ar olwynion yn addas ar gyfer BMX, byrddau sgrialu, sglefrio llinell a sgwteri ..... H11

## EGLWYSI A MANNAU ADDOLI

(Nifer mewn cromfachau'n cyfeirio at eglwysi)

- Bedyddwyr ..... (1) D7, (2) G7, (3) F8
- Eglwys yng Nghymru ..... (4) D3, (5) F7, (6) F7
- Annibynwyr ..... (7) F8
- Methodistaidd ..... (8) F7, (9) H9, (10) E6
- Presbyteraidd ..... (11) E6, (12) B3
- Catholig ..... (13) D5
- Tŷ Cwrdd Cymdeithas y Crynwyr ..... (14) F9

## ALLWEDD SYMBOLAU

- 20 Atyniad / Lle o Ddiddordeb
- ★ Swyddfa Bost
- Stryd Unffordd
- P Maes Parcio Talu ac Arddangos
- P Parcio Glan y Môr Talu ac Arddangos 10am-4pm Dydd Llun i ddydd Sul yn gynhwysol. Parcio AM DDIM rhwng 4pm-10am
- Gorsaf Betrol
- Toileddau
- Toiled hygyrch gyda chlo Cynllun Allwedd Cenedlaethol (RADAR)



Bae Colwyn  
Colwyn Bay

graddfa/scale 0.25  
milltiroedd/miles